



# Athrawon Cyflenwi

---

## CYFLOGAU ATHRAWON CYFLENWI – CYMRU 2021/22

Mae athrawon cyflenwi'n chwarae rôl hanfodol mewn codi a chynnal safonau addysgol uchel mewn ysgolion. Un o'r blaenoriaethau allweddol i NASUWT yw ymgyrchu i sicrhau hawliau proffesiynol i athrawon cyflenwi, ynghyd â sicrhau cyflogau ac amodau gwaith gweddus i'r holl athrawon cyflenwi.

Mae cyflogau athrawon cyflenwi'n cael eu pennu gan y cyflogwr, yn amodol ar unrhyw reoliadau neu gytundebau statudol a allai fod yn berthnasol yn genedlaethol ac/neu yn lleol.

Mae natur perthynas cyflogaeth yr unigolyn yn hanfodol wrth bennu'r cyflog, y pensiwn a'r amodau gwaith a fydd gan yr athrawon.

Mae'r prif fathau o berthynas cyflogaeth athrawon cyflenwi'n cynnwys:

1. wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol;
2. wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol (h.y. ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ymddiriedolaethau sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir);
3. wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan ysgolion nas cynhelir gan awdurdodau lleol (e.e. ysgolion annibynnol);
4. wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan asiantaethau cyflogaeth neu gwmnïau ymbarél; ac
5. wedi eu cyflogi fel 'contractwr' neu ar sail hunangyflogedig.

Bydd hawl gan athrawon y mae eu perthynas cyflogaeth wedi ei diffinio yng nghategoriâu 1 neu 2 uchod i gael eu talu'n unol ag amodau a thelerau cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol fel y maent wedi eu diffinio yn y [Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol \(Cymru\)](#) – y cyfeirir ati fel STPCD (Cymru) o hyn ymlaen. Mae gan athrawon o'r fath yr hawl i gael eu talu ar yr un sail ag unrhyw athro/athrawes arall o dan dermau polisi cyflog yr awdurdod lleol neu'r ysgol.

Gallai athrawon y mae eu perthynas cyflogaeth wedi ei diffinio yng nghategori 3 uchod fod â hawl i gael eu talu'n unol ag amodau a thelerau cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol lle mae'r ysgol wedi mynd i gydgytundeb gyda NASUWT i gyflogi pob athro/athrawes yn unol ag amodau a thelerau cenedlaethol ar gyfer athrawon ysgol.

### Wedi eu cyflogi'n unol â'r STPCD (Cymru)

Dylai athrawon cyflenwi a gyflogir gan awdurdodau lleol neu ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol, neu ysgolion sydd wedi mabwysiadu cydgytundebau ffurfiol i weithredu yn ôl amodau a thelerau cenedlaethol, gael eu talu'n unol â darpariaethau'r STPCD (Cymru).

Mae'r STPCD (Cymru) yn diffinio cyflogau, amodau gwaith (gan gynnwys oriau gwaith) a dyletswyddau proffesiynol athrawon. Mae'n fframwaith cenedlaethol ac mae'n statudol ac yn gytundebol. Mae'r STPCD (Cymru) yn disgrifio athrawon cyflenwi fel athrawon a gyflogir ar 'fyr rybudd' ac yn nodi bod yn rhaid iddynt gael eu talu fel a ganlyn:

*“Rhaid i athrawon a gyflogir ar sail ‘o ddydd i ddydd’, neu ar sail arall sy'n weddol ddirybudd, gael eu talu'n unol â darpariaethau'r Ddogfen hon ar sail ddyddiol, a bydd y tâl wedi ei gyfrifo ar y dybiaeth bod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 194 o ddiwrnodau (ar gyfer 2021-22 yn unig), a bydd y cyflog am gyfnodau o gyflogaeth sy'n llai na diwrnod wedi ei gyfrifo ar sail pro rata.”*

---

Mae hyn yn golygu bod rhaid i athrawon cyflenwi a gyflogir o dan ddarpariaethau'r STPCD (Cymru) gael eu talu'n unol â'r ystodau cyflog a'r graddfeydd cyflog sy'n berthnasol i athrawon eraill. Wrth bennu'r gyfradd ddyddiol i'r athrawon cyflenwi, rhaid i'r ysgol neu'r awdurdod lleol gyfrifo hyn ar sail pro rata ar y dybiaeth bod blwyddyn waith yr athrawon yn cynnwys 194 o ddiwrnodau gwaith (ar gyfer 2021/22 yn unig).

$$\frac{\text{Y gyfradd ddyddiol} = X \text{ (y cyflog blynyddol)}}{194 \text{ o ddiwrnodau}}$$

## Gwerthoedd cyflog ar gyfer 2021/22

Yng Nghymru, mae'r gwerthoedd isaf ac uchaf ar gyfer pob un o'r ystodau cyflog wedi eu nodi yn y STPCD (Cymru) ac maent yn amodau a thelerau cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwerthoedd cyflog blynyddol a'r cyfraddau dyddiol ar gyfer 2021/22 sy'n berthnasol i athrawon yng Nghymru sy'n cael eu talu ar y lleiafswm a'r uchafswm sydd wedi eu hamlygu ar yr ystodau cyflog. Mae pwyntiau cyfeirio talu NASUWT, rhwng yr ystodau cyflog uchaf ac isaf, hefyd wedi eu cynnwys yn y tablau. Nodwch os gwelwch yn dda bod y cyfraddau dyddiol yma'n gyfraddau cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol.

## Y graddfeydd cyngorol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru:

### Athrawon dosbarth

Graddfa Gyflog	Cyflog Blynyddol	Cyflog Dyddiol
M2	£27,491	£141.71
M3	£29,699	£153.09
M4	£31,987	£164.89
M5	£34,506	£177.87
Uchafswm M6	£37,974	£195.75
Lleiafswm U1	£39,368	£202.93
U2	£40,827	£210.45
Uchafswm U3	£42,333	£218.22

Byddai pob lwfans arall a chyflogau ar bob pwynt cyflog arall yn cael eu cynyddu o 1.75%, gan gynnwys ar gyfer athrawon heb gymhwyso.

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi a ddatblygwyd gan Wasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru'n golygu bod yr asiantaethau sy'n rhan o'r fframwaith wedi cytuno i dalu cyflog i bob athro cyflenwi ac athrawes gyflenwi ar gyfradd sy'n gyfatebol ag o leiaf M1. Cynghorir yr aelodau i weithio dim ond i'r asiantaethau hynny sy'n rhan o'r cytundeb.

Yn dilyn cyhoeddi'r STPCD (Cymru), mae'n bwysig nodi – ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 – y gall pob athro cyflenwi ac athrawes gyflenwi sy'n gweithio i asiantaeth sy'n rhan o'r Fframwaith Cenedlaethol ddisgwyl derbyn cyflog ar gyfradd sy'n gyfatebol ag o leiaf M2.

Weithiau mae problem yn codi mewn ysgolion mewn perthynas â'r nifer o oriau y 'telir athrawon amdanynt' os ydynt yn cael eu talu yn unol â'r fformiwla yma. Y rheswm am hynny yw y gall pennaeth gyfarwyddo athrawon nad ydynt ar y golofn arweinyddiaeth i weithio am 1,258 o oriau'r flwyddyn ar weithgareddau dan gyfarwyddyd – ac mae'r gweithgareddau dan gyfarwyddyd hyn yn cynnwys gwaith addysgu.

Mae'r cyfanswm o 1,258.5 o oriau wedi ei rannu gyda 194 (ar gyfer 2021/22 yn unig) yn gyfatebol â 6.49 awr ac, felly, mae rhai ysgolion a chyflogwyr yn honni, os nad yw athro'n addysgu am chwe awr a hanner, na ddylent dderbyn y cyflog blynyddol y mae hawl ganddynt ei dderbyn o dan y STPCD (Cymru) wedi ei rannu gyda 194 (ar gyfer 2021/22 yn unig).



Dylai'r athrawon cyflenwi beidio derbyn taliad sy'n llai na'r cyflog y mae ganddynt hawl iddo wedi ei rannu gan 194 o ddiwrnodau (ar gyfer 2021/22 yn unig) ar gyfer diwrnod o waith fel athrawon cyflenwi.

Mae'n eithriadol anarferol i athrawon addysgu am chwe awr a hanner y dydd ac, hyd yn oed pe baen nhw'n gwneud hynny, fydden nhw ddim yn gwneud hynny bob dydd, oherwydd ni allai pennaeth gyfarwyddo'r athrawon i wneud unrhyw weithgareddau eraill dan gyfarwyddyd.

Dan amgylchiadau lle mae athrawon yn cael eu cyflogi am lai na diwrnod, mae'r STPCD (Cymru) yn nodi y dylid cyfrifo eu cyflog ar sail pro rata. Mae NASUWT yn cefnogi'r trefniant bod athro/athrawes dan yr amgylchiadau hyn yn cael eu talu ar sail sesiwn ysgol/disgybl.

Mae'r diwrnod ysgol wedi ei seilio ar ddwy sesiwn ysgol/disgybl (sesiwn bore a sesiwn prynhawn). Dros 194 o ddiwrnodau, mae 388 o sesiynau. Pan fydd athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio ar gyfer un sesiwn yn unig (e.e. prynhawn), sy'n fyrrach na'r sesiwn arall (bore), dylai'r athrawon gael eu talu am y sesiwn beth bynnag ar sail y cyflog blynyddol wedi ei rannu gan 388.

## Wedi eu cyflogi gan asiantaeth

Cyflogir llawer o athrawon cyflenwi'n uniongyrchol gan, neu maent yn cael gwaith drwy, asiantaethau cyflogaeth yng Nghymru.

Mae NASUWT yn pryderu bod rhai asiantaethau cyflogaeth yn mabwysiadu arferion ofnadwy a chamfanteisiol mewn perthynas ag athrawon cyflenwi ac yn ceisio cymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud elw er anfantais i athrawon ac ysgolion. Mae'r Undeb yn ymgyrchu'n frwd i sicrhau triniaeth deg i athrawon a gyflogir gan neu drwy asiantaethau cyflenwi (gan gynnwys cwmnïau ymbarél). Mae NASUWT hefyd yn ymgyrchu i sicrhau safonau ansawdd cenedlaethol a rheoleiddio asiantaethau cyflenwi i sicrhau eu bod yn gweithredu'n deg i athrawon ac ysgolion.

Nid oes unrhyw gyflogau nac amodau cenedlaethol ar gyfer athrawon cyflenwi a gyflogir gan asiantaethau. Felly, mae asiantaethau unigol yn rhydd i osod eu lefelau cyflogau ac amodau eu hunain yn erbyn cefndir o ddeddfwriaeth cyflogaeth gyffredinol. Bydd asiantaethau'n codi cyfradd ddyddiol ar bob ysgol pan fyddent yn darparu athro/athrawes. Ond bydd y swm a godir ar yr ysgol yn uwch na'r swm a delir i'r athro/athrawes unigol sy'n gwneud y gwaith cyflenwi.

Er bod asiantaethau cyflenwi'n rhydd, wrth gwrs, i osod eu cyfraddau tâl eu hunain, mae NASUWT yn disgwyl y bydd asiantaethau'n cydnabod bod angen sicrhau bod y codiad cyflog cenedlaethol, a osodir gan y STPCD (Cymru) ac a ategir gan y Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol i Gymru, yn cael ei weithredu ar gyfer athrawon cyflenwi hefyd.

Byddai NASUWT yn disgwyl bod codiadau cyflog i athrawon cyflenwi'n adlewyrchu disgwyliadau gofynnol yr Undeb gan awdurdodau lleol fan leiaf.

Mae'n ddoeth cymharu'r cyfraddau a delir i athrawon a gynigir gan bob asiantaeth. Cyn cychwyn penodiad gydag asiantaeth, mae hi'n bwysig hefyd i gadarnhau polisi cyflog yr asiantaeth ac i gadarnhau a fydd yr athro/athrawes yn cael eu talu bob yn awr, bob yn sesiwn neu ar gyfradd ddyddiol. Mae hyn yn bwysig oherwydd, lle mae athro/athrawes ar gontract sy'n eu talu ar gyfradd fesul awr, efallai na chânt eu talu am unrhyw amser pan nad ydynt yn gwneud gwaith addysgu.

Mae Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 yn gosod y safonau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i weithwyr asiantaeth y mae'n rhaid i asiantaethau cyflogaeth gadw atynt. Mae hyn yn gofyn darparu a chytuno ar wybodaeth am gyflogau, gan gynnwys pryd a faint y bydd athrawon cyflenwi'n cael eu talu.

Pan fydd athrawon cyflenwi asiantaeth wedi bod yn gweithio yn yr un rôl i'r un ysgol/cyflogwr am o leiaf 12 wythnos, bydd ganddynt yr hawl i gael eu talu ar yr un sail â'r athrawon eraill a gyflogir gan yr ysgol/cyflogwr. Mae faint y bydd yr athrawon cyflenwi asiantaeth yn cael eu talu'n dibynnu ar bolisi cyflog y cyflogwr. Gall yr athro/athrawes ofyn am gopi o bolisi cyflog yr ysgol/cyflogwr unrhyw bryd.

Lle mae'r polisi cyflog yn aneglur neu heb gael ei ddarparu pan ofynnir amdano, dylai aelodau gysylltu â NASUWT i gael cyngor.

**siaradwch  
â ni**

[rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk](mailto:rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk)  
[www.nasuwt.org.uk](http://www.nasuwt.org.uk)